# Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016

**2016 dccc 6**

## RHAN 3

FFURFLENNI TRETH, YMHOLIADAU AC ASESIADAU

### PENNOD 5

DYFARNIADAU ACC

**52 Dyfarniad o'r dreth sydd i'w chodi os na ddychwelir ffurflen dreth**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys—

(a) pan fo gan ACC reswm i gredu bod treth ddatganoledig i'w chodi ar berson,

(b) pan na fo'r person wedi dychwelyd ffurflen dreth mewn perthynas â'r dreth ddatganoledig sydd i'w chodi, ac

(c) pan fo'r dyddiad ffeilio perthnasol wedi mynd heibio.

(2) Ystyr "y dyddiad ffeilio perthnasol" yw'r dyddiad erbyn pryd y mae ACC yn credu yr oedd yn ofynnol dychwelyd ffurflen dreth.

(3) Caiff ACC wneud dyfarniad ("dyfarniad ACC") ynghylch swm y dreth ddatganoledig sydd i'w chodi ar y person, ym marn ACC.

(4) Rhaid dyroddi hysbysiad am y dyfarniad i'r person.

(5) Rhaid i'r person dalu'r dreth ddatganoledig sy'n daladwy **[**[F1]yn unol â dyfarniad**]** ACC cyn diwedd y cyfnod o 30 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y dyroddir hysbysiad am y dyfarniad.

(6) Ni chaniateir gwneud dyfarniad ACC dros 4 blynedd ar ôl y dyddiad perthnasol.

(7) Y dyddiad perthnasol yw—

(a) y dyddiad ffeilio perthnasol, neu

(b) unrhyw ddyddiad arall y caiff Gweinidogion Cymru ei ragnodi drwy reoliadau.

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Geiriau yn a. 52(5) wedi eu hamnewid (1.4.2018) gan Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 (anaw 1), a. 81(2)(3), **Atod. 23 para. 16**; O.S. 2018/34, ergl. 3

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 52 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 194(2)**

**I2** A. 52 mewn grym ar 1.4.2018 gan O.S. 2018/33, **ergl. 3**

## 53 Ffurflen dreth yn disodli dyfarniad

(1) Os yw'r person yr oedd gan ACC reswm i gredu bod treth ddatganoledig i'w chodi arno yn dychwelyd ffurflen dreth mewn perthynas â'r dreth ar ôl i ddyfarniad ACC gael ei wneud, mae'r ffurflen yn disodli'r dyfarniad.

(2) Ond nid yw is-adran (1) yn gymwys i ffurflen dreth a ddychwelwyd—

(a) dros 4 blynedd ar ôl i'r pŵer i wneud dyfarniad ACC ddod yn arferadwy gyntaf, neu

(b) dros 12 mis ar ôl y diwrnod y dyroddwyd hysbysiad am y dyfarniad,

pa un bynnag sydd hwyraf.

(3) Pan fo—

(a) achos wedi ei gychwyn i adennill unrhyw dreth ddatganoledig a godwyd gan ddyfarniad ACC, a

(b) ffurflen dreth yn disodli'r dyfarniad cyn i'r achos ddod i ben,

caniateir parhau â'r achos fel pe bai'n achos i adennill cymaint o'r dreth ddatganoledig a godir gan y ffurflen dreth ag y mae'n ofynnol ei dalu ac nad yw wedi ei dalu eto.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** A. 53 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 194(2)**

**I4** A. 53 mewn grym ar 1.4.2018 gan O.S. 2018/33, **ergl. 3**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016, PENNOD 5.